POLISI A STRATEGAETH

# Galwad am dystiolaeth ac arbenigedd ar wrychoedd (perthi)

Galwad am dystiolaeth ac arbenigedd ar wrychoedd gan asesydd interim diogelu'r amgylchedd Cymru.

**Cyhoeddwyd gyntaf:** 1 Medi 2022

**Diweddarwyd ddiwethaf:** 2 Medi 2022

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/galwad-am-dystiolaeth-ac-arbenigedd-ar-wrychoedd-perthi-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am **hawlfraint**.

Annwyl gyfeillion

Fy rôl, fel Asesydd Interim Diogelu'r Amgylchedd Cymru, yw goruchwylio'r gwaith o weithredu cyfraith amgylcheddol yng Nghymru, ac ystyried materion systemig sy'n ymwneud â'r ffordd y mae cyfraith amgylcheddol yn gweithio neu'n gweithredu yng Nghymru. Gyda hyn mewn golwg, rwy'n bwriadu llunio adroddiad ar wrychoedd i Weinidogion Cymru er mwyn:

- asesu a yw'r fframwaith cyfreithiol presennol yn gweithredu'n gywir;
- nodi meysydd lle mae'n bosibl nad yw'r amddiffyniad cyfreithiol presennol yn dwyn y buddion a fwriedir, yn enwedig mewn perthynas â gwarchod bioamrywiaeth;
- nodi bylchau posibl yn y ddeddfwriaeth bresennol;
- nodi meysydd lle mae'n bosibl bod y gwaith o gymhwyso'r ddeddfwriaeth yn ymarferol yn cael ei rwystro;
- llunio argymhellion drafft ar sut y gellid gwella'r gyfraith.

Mae fy nghynlluniau ar gyfer llunio'r adroddiad hwn yn deillio o bryderon rwyf wedi'u derbyn, sy'n cynnwys:

- p'un a yw Rheoliadau Gwrychoedd (Perthi) 1997 yn cyflawni eu nod datganedig o warchod gwrychoedd yn effeithiol;
- p'un a ddeellir y Rheoliadau hyn yn ddigon da neu p'un a ydynt yn cael eu gorfodi'n briodol;
- p'un a ddylid cymhwyso'r gyfraith yn fwy eang er mwyn cwmpasu parciau a gerddi yn ogystal â thir ffermio;
- p'un a yw cyllid grantiau yn annog gwaredu gwrychoedd sydd wedi gordyfu;
- effaith defnyddio rhwydi i atal adar ar wrychoedd.

Os hoffai unrhyw un ddarparu sylwadau neu dystiolaeth ysgrifenedig ar y materion uchod, anfonwch hwy at IEPAW@llyw.cymru erbyn **dydd Gwener 30 Medi 2022**.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/galwad-am-dystiolaeth-ac-arbenigedd-ar-wrychoedd-perthi-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am **hawlfraint**.

A fyddech cystal â chadarnhau hefyd a ydych yn fodlon i’ch sylwadau / tystiolaeth gael eu dyfynnu yn yr adroddiad terfynol a’u priodoli i chi a/neu eich sefydliad. Gellir dod o hyd i ragor o wybodaeth am rôl IEPAW yn **Codi pryderon am sut mae cyfraith amgylcheddol yn gweithio**.

Diolch yn fawr.

*Ar ran*

*Dr Nerys Llewelyn Jones*

*Asesydd Interim Diogelu'r Amgylchedd Cymru*

*E-bost:* ***IEPAW@llyw.cymru***

**Efallai na fydd y ddogfen hon yn hollol hygyrch.**
Drllenwch ein **datganiad hygyrchedd** i gael rhagor o wybodaeth.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/galwad-am-dystiolaeth-ac-arbenigedd-ar-wrychoedd-perthi-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.